

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

14 Rhagfyr 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021 yn gwneud darpariaeth ynghylch dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru o dan baragraffau 6B, 6C a 6D o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Ni nodwyd unrhyw faterion penodol

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021 drwy arfer y pwerau ym mharagraffau 6B(3), 6C(4) a 6D(4) o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 207(2) ohoni, drwy'r weithdrefn negyddol yn unol ag adran 209(5) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben yr offeryn statudol hwn yw gwneud rheoliadau ynghylch y dyletswyddau ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

4.2 Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch y trefniadau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu gwneud i ddarparu cyngor a gwybodaeth am wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion i ddisgyblion anabl.

4.3 Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi personau annibynnol i hwyluso datrys anghydfodau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

4.4 Mae rheoliad 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi personau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol i ddisgyblion anabl.

5. Ymgynghori

5.1 Gan fod y dyletswyddau sy'n sail i'r Rheoliadau hyn wedi bod mewn grym ers 2010, ni ystyriwyd bod angen ymgynghoriad ffurfiol. O ystyried bod dyletswyddau tebyg yn ymwneud ag apelau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wedi'u gwneud yn ddiweddar, ystyrir ei bod yn briodol gwneud y Rheoliadau hyn, sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson yn cael ei ddefnyddio.

- 5.2 Fodd bynnag, cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol wedi'i dargedu dros yr haf i ganfod pa arferion gwaith a oedd eisoes ar waith gan awdurdodau lleol i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn.
- 5.3 Gofynnodd ymgynghoriad arall wedi'i dargedu i awdurdodau lleol roi sylwadau ar y canllawiau drafft, a fydd yn cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn i helpu awdurdodau lleol i ymgymryd â'r dyletswyddau a nodir yn y Rheoliadau.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

- a) Gwneud dim
- b) Dim ond cyhoeddi canllawiau
- c) Gwneud y Rheoliadau heb gyhoeddi'r canllawiau
- d) Gwneud y Rheoliadau arfaethedig a chyhoeddi'r canllawiau cysylltiedig

7. Costau a manteision

- 7.1 O barhau gyda'r status quo a dewis Opsiwn A (gwneud dim), ni fyddai effaith ar y costau ariannol a'r manteision i awdurdodau lleol. Er hynny, gan fod y dyletswyddau sydd yn y Rheoliadau arfaethedig eisoes wedi'u gosod ar awdurdodau lleol, mae risg na fydd y dyletswyddau yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).
- 7.2 Gan fod pŵer i wneud rheoliadau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 hefyd nad yw wedi cael ei ddefnyddio, efallai y byddai'n ymddangos yn rhyfedd pe na bai'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud.
- 7.3 Felly, gallai gwneud dim atal gwell ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau hyn sydd eisoes yn bodoli, a allai arwain at fwy o amrywiaeth yn y ffyrdd y mae'r dyletswyddau yn cael eu cyflawni. Gellid ystyried hyn yn gost i'r disgyblion sydd wedi gwneud honiad o wahaniaethu ar sail anabledd.
- 7.4 Byddai gan Opsiwn B, sef cyhoeddi'r canllawiau ond peidio â gwneud y Rheoliadau, effaith debyg i Opsiwn A (dim costau ariannol na manteision), ond gyda rhai gwelliannau posibl o ran cysondeb â'r dull gweithredu a gymerir gan awdurdodau lleol. Mae'r canllawiau eisoes wedi'u paratoi ac felly mae'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r canllawiau yn cael eu hystyried yn gostau blaenorol ac felly maent wedi'u heithrio o'r dadansoddiad hwn. Er hynny, mae problem yn codi wrth gyhoeddi canllawiau heb wneud y Rheoliadau. Bwriad y canllawiau yw ychwanegu manylion i'r Rheoliadau a helpu awdurdodau lleol i ymgymryd â'u dyletswyddau gan ddefnyddio dull gweithredu cyson o ansawdd uchel. Mae Rheoliadau hefyd yn rhoi statws i'r canllawiau drwy gynnwys y dyletswyddau y mae rhaid i awdurdodau lleol ymgymryd â hwy; ond mae'r canllawiau yn ddogfen anstatudol a bydd y pwysau a

roddir arnynt a'u perthnasedd o'r herwydd yn gyfyngedig heb y Rheoliadau cysylltiedig.

- 7.5 Byddai gan Opsiwn C, sef gwneud y Rheoliadau heb gyhoeddi'r canllawiau, y fantais o gynnwys y dyletswyddau penodol yn y Rheoliadau; ar hyn o bryd mae'r dyletswyddau wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol yn unig. Er hynny, heb y canllawiau cysylltiedig sy'n ychwanegu manylion at y Rheoliadau ac yn rhoi arweiniad ac eglurder i awdurdodau lleol, cyfyngedig fyddai'r manteision hynny. Nid oes disgwyl unrhyw gostau ariannol gyda'r opsiwn hwn.
- 7.6 Opsiwn D yw'r dewis a ffefrir gennym, gan ei fod yn rhoi'r manteision mwyaf heb gynyddu costau. Drwy wneud y Rheoliadau a chyhoeddi'r canllawiau nid ydym yn rhagweld unrhyw newidiadau i'r costau ariannol na'r manteision i awdurdodau lleol oherwydd eu bod eisoes wedi gorfod cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol sylfaenol ers nifer o flynyddoedd.
- 7.7 Er hynny, rydym yn teimlo bod mantais gwirioneddol i ddisgyblion o ychwanegu manylion yn y Rheoliadau a'r canllawiau er mwyn helpu i sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru wrth i awdurdodau lleol ymgymryd â dyletswyddau perthnasol.
- 7.8 Dylai'r canllawiau a'r Rheoliadau wneud rôl awdurdodau lleol yn fwy eglur wrth roi cymorth i ddisgyblion gyda honiad o wahaniaethu ar sail anabledd.
- 7.9 Er nad yw'r angen am y Rheoliadau hyn yn gyfreithiol, dylai cau'r bwlch ddod ag eglurder i ddyletswyddau sydd eisoes yn bodoli, a sicrhau bod y dyletswyddau a'r canllawiau mewn perthynas a gwahaniaethu ar sail anabledd yn cyd-fynd ag apelau o dan y system ADY (dau o swyddogaethau Tribiwnlys Addysg Cymru), sydd i'w canfod yn y Cod ADY.
- 7.10 Felly, rydym yn credu mai Opsiwn D yw'r gorau, sef gwneud y Rheoliadau arfaethedig a chyhoeddi'r canllawiau cysylltiedig, gan mai'r

opsiwn hwn syn rhoi'r manteision mwyaf heb orfod ysgwyddo costau ychwanegol.

8. Asesiad o'r gystadleuaeth

8.1 Nid Rheoliadau arfaethedig gael unrhyw effaith ar fusnesau, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Nid ydym yn awgrymu adolygiad ar ôl gweithredu ar gyfer y Rheoliadau hyn.

9.2 Yn gyntaf, mae'r Rheoliadau yn ategu dyletswyddau sydd eisoes wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Gan nad ydym yn cyflwyno dyletswyddau newydd, ni ellir cael sylfaen i fonitro cydymffurfedd.

9.3 Yn ail, mae dyletswyddau yn y canllawiau sy'n gofyn bod awdurdodau lleol yn cynnal eu hasesiad eu hunain er mwyn pennu a monitro safon gyffredinol rhai o'r darpariaethau y maent yn gyfrifol am eu gweithredu.

9.4 Rydym yn credu bod hyn yn ffordd briodol o adolygu ac ni fyddwn yn ceisio dim byd pellach.